AT DDEFNYDD GLITEM
YN UNIG

# Cais am ddirymiad

## Adran 1 – Eich cais

**1.1** Rwy'n gwneud cais am ddirymiad yng nghyswllt fy

☐ mhriodas

☐ partneriaeth sifil

ac yn rhoi'r manylion canlynol i gefnogi fy nghais

**1.2** Pa ddogfennau ydych chi'n eu cyflwyno i gefnogi eich cais?

☐ Eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil neu gopi ardystiedig o'r dystysgrif o ble y gwnaethoch briodi neu ymrwymo i bartneriaeth sifil (**ni** dderbynnir llungopi).

☐ Cyfieithiad sydd wedi'i ardystio gan notari cyhoeddus neu ei awdurdodi gan ddatganiad o wirionedd gan y sawl a wnaeth y cyfieithiad. Dylid darparu hyn os nad yw eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil (neu ddogfen debyg a gyhoeddwyd o dan y gyfraith yn y wlad y gwnaethoch gofrestru eich priodas neu bartneriaeth sifil) yn Saesneg.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar wneud trefniadau ar gyfer plant os ydych yn ysgaru neu'n gwahanu yn: https://www.gov.uk/looking-after-children-divorce

**Nodyn 1.1:** Fe ymdrinnir â sut byddwch yn rhannu eich arian a'ch eiddo ar wahân. Efallai y byddwch eisiau ystyried cael cyngor cyfreithiol.

Dylid defnyddio ffurflen D11 rhybudd o gais i wneud unrhyw gais am gostau mewn achos safonol (heb ei wrthwynebu). Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan gov.uk.

Ar gyfer priodasau/partneriaethau sifil yng Nghymru a Lloegr gallwch archebu copi o'r dystysgrif yn www.gro.gov.uk/gro/content/certificates. Bydd angen i chi dalu am bob copi.


©Hawlfraint y Goron 2022

## Adran 2 – Amdanoch chi

**2.1** Enw llawn

Enw(au) cyntaf

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |

Enw(au) canol

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |

Cyfenw

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |

Ai dyma naill ai eich enw priod neu'r enw a ddangosir ar eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil?

☐ Ie

☐ Na. Atodwch eich gweithred newid enw/datganiad statudol neu os nad yw hyn yn berthnasol, esboniwch pam fod eich enw wedi newid

**Nodyn 2.1:** Gall fod yn wahanol i'r un ar eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil. Gall hyn fod yn eich enw olaf, enw olaf eich priod/partner sifil neu enw olaf dwbl sy'n cyfuno’r ddau. Os ydych wedi newid eich enw, ar wahân i drwy briodas, ers i chi briodi, rhaid i chi atodi copi o’ch gweithred newid enw neu fel arall egluro pam fod eich enw wedi newid.

**2.2** Beth yw eich dyddiad geni?

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |

**2.3** Beth yw eich rhywedd?

☐ Gwryw

☐ Benyw

**2.4** A ydych yn dymuno cadw eich manylion cyswllt yn gyfrinachol rhag eich priod neu bartner sifil?

☐ Ydw. Llenwch ffurflen **C8** ar wahân gyda'ch manylion a pheidiwch â'u nodi isod.

☐ Nac ydw

**2.5** Beth yw eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt?

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Rhif ffôn (os oes gennych un)

Cyfeiriad e-bost (os oes gennych un)

**2.6** A oes gennych gyfreithiwr?

☐ Oes. **Atebwch y cwestiynau canlynol (2.7 – 2.10)**

☐ Nac oes. **Ewch i Adran 3**.

**2.7** Enw'r cyfreithiwr

**Nodyn 2.4:** Os nad ydych eisiau datgelu eich manylion cyswllt i'r ceisydd, dylech adael y manylion hyn yn wag a llenwi ffurflen **C8 Manylion Cyswllt Cyfrinachol.**

**Nodyn 2.5:** Dylech roi cyfeiriad cartref yn y DU, os oes gennych un. Bydd y llys yn anfon papurau i'ch cyfeiriad cartref, neu gallwch ddarparu cyfeiriad busnes yn y DU. Os ydych am roi cyfeiriad y tu allan i'r DU, gall rheolau gwahanol fod yn berthnasol i ddogfennau yn cael eu hanfon atoch. Efallai yr hoffech geisio cyngor cyfreithiol.

**Cofiwch** y bydd gwybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn cael ei hanfon at eich priod/ partner sifil. Os nad ydych eisiau iddynt wybod beth yw eich manylion cyswllt cyfredol, sicrhewch eich bod wedi ticio 'Ydw' yng nghwestiwn 2.2, ac ni fydd y llys yn datgelu'r manylion hyn.

Os nad ydych wedi darparu cyfeiriad e-bost, bydd y llys yn anfon copi o'r cais a gyflwynwyd i'ch cyfeiriad postio.

**Nodyn 2.6:**Ar gyfer cyfreithiwr sy'n cwblhau'r cais hwn: mae cyfeiriadau at 'gyfreithiwr' yn y ffurflen hon yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd, er pwrpas Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007, yn unigolyn awdurdodedig mewn perthynas â gweithgaredd sy'n cyfateb i gyflwyno cyfreitha (o fewn ystyr y Ddeddf honno)

**2.8** Cyfeirnod y cyfreithiwr (os yw'n berthnasol)

**2.9** Enw cwmni'r cyfreithiwr

**2.10** Cyfeiriad cwmni'r cyfreithiwr

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Cyfeiriad DX (os yw'n berthnasol)

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

# Adran 3 - Manylion yr atebydd

**3.1** Enw llawn

Enw(au) cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

**3.2** Ai dyma'r enw priod neu'r enw a ddangosir ar y dystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil?

☐ Ie

☐ Na. Atodwch y weithred newid enw/datganiad statudol neu os nad yw hyn yn berthnasol, esboniwch pam fod yr enw wedi newid

**3.3** Beth yw eu dyddiad geni?

Diwrnod Mis Blwyddyn

**3.4** Beth yw eu rhywedd?

☐ Gwryw

☐ Benyw

**3.5** Beth yw cyfeiriad yr atebydd?

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Rhif ffôn (os oes un)

**Nodyn 3.5:** Pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno gan y llys, bydd yn cael ei gyflwyno drwy e-bost a bydd hysbysiad yn cadarnhau ei fod wedi'i gyflwyno yn cael ei anfon i gyfeiriad ar gyfer postio'r atebydd.

**Rhowch gyfeiriad e-bost arferol yr atebydd neu gyfeiriad e-bost a ddarparwyd gan yr atebydd at ddibenion cyflwyno'r cais (er enghraifft, cyfeiriad e-bost eu cyfreithiwr). Dylech osgoi defnyddio cyfeiriad e-bost gwaith oherwydd efallai na fydd yn gyfrinachol.**

Cyfeiriad e-bost (os oes un)

☐ Rwy'n cadarnhau hyd y gwn i, mai dim ond yr atebydd sydd â mynediad i'r cyfrif e-bost uchod

**Dalier Sylw:** Dylech ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddir gan yr atebydd ar gyfer negeseuon e-bost personol. Pan fydd gan yr atebydd gyfreithiwr sydd wedi'i gyfarwyddo i dderbyn y cais, dylech roi cyfeiriad e-bost y cyfreithiwr yma.

Ni ddylai'r cyfeiriad e-bost fod yr un fath â'r un a roddwyd ar gyfer y ceisydd.

**3.6** A yw'r cais i'w gyflwyno ar yr atebydd y tu allan i Gymru a Lloegr?

☐ Ydy. Dylech drefnu i gyflwyno'r cais hwn ar yr atebydd.
**Ewch i gwestiwn 3.8.**

☐ Nac ydy

**3.7** Bydd y llys yn cyflwyno'r cais ar yr atebydd drwy e-bost ac fe anfonir hysbysiad drwy'r post oni bai eich bod yn ticio'r blwch isod

☐ Cyflwynwch y cais hwn drwy'r post yn unig

☐ Byddaf yn trefnu i'r cais gael ei gyflwyno ar yr atebydd

**3.8** A yw'r atebydd wedi darparu cyfeiriad gwahanol ar gyfer anfon dogfennau'r llys?

☐ Do, rhowch fanylion y cyfeiriad isod

☐ Naddo. **Ewch i Adran 4**

**3.9** Enw cyfreithiwr yr atebydd (os yw'n berthnasol ac yn hysbys)

| |
|---|
| |

**3.10** Cyfeirnod y cyfreithiwr (os yw'n berthnasol ac yn hysbys)

| |
|---|
| |

**3.11** Enw cwmni'r cyfreithiwr (os yw'n berthnasol ac yn hysbys)

| |
|---|
| |

**Nodyn 3.6**: Os nad yw'r atebydd yng Nghymru neu Loegr, rhaid i'r ceisydd drefnu i gyflwyno'r cais hwn ar yr atebydd. Efallai y bydd rheolau arbennig yn berthnasol yn hyn o beth ac efallai yr hoffech geisio cyngor cyfreithiol.

**Nodyn 3.8:** Dylid darparu manylion cyfeiriadau amgen neu gyfeiriadau cyfreithwyr yng nghwestiwn 3.12.

**3.12** Cyfeiriad y cyfreithiwr neu gyfeiriad arall y maent wedi'i ddarparu

Adeilad a stryd

Ail linell y cyfeiriad

Tref neu ddinas

Sir (dewisol)

Gwlad

Cod post

Cyfeiriad DX (os yw'n berthnasol)

Rhif ffôn

**Nodyn 3.12:** Bydd y llys yn anfon dogfennau i'r cyfeiriad hwn.

## Adran 4 - Manylion y briodas/bartneriaeth sifil

Dylech atodi eich tystysgrif priodas neu dystysgrif eich partneriaeth sifil i'r cais hwn, ynghyd â chyfieithiad ardystiedig yn Saesneg os oes angen (bydd y llys fel arfer yn cadw eich dogfennau ac ni fyddant yn cael eu dychwelyd i chi). Os nad oes gennych y dystysgrif wreiddiol ac os na allwch gael copi ohoni, bydd rhaid i chi wneud cais ar wahân, ochr yn ochr â'r cais hwn, i gyhoeddi'r ffurflen hon heb y dystysgrif.

**Dalier Sylw:** Os ydych yn gwneud cais heb eich tystysgrif priodas/ partneriaeth sifil bydd angen i chi wneud cais ar wahân ar Ffurflen **D11** (Rhybudd o gais) a thalu ffi llys arall. Argymhellir eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol os nad ydych yn siŵr sut i wneud hyn.

**4.1** A ddigwyddodd eich priodas/partneriaeth sifil y tu allan i'r DU?

☐ Do

☐ Naddo

**4.2** Lle digwyddodd y briodas?

**Nodyn 4.2:** Nodwch y man lle gweinyddwyd y briodas neu y ffurfiwyd y bartneriaeth sifil, yn union fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif priodas/ partneriaeth sifil).

**4.2** Ydych chi'n gwneud cais ar wahân i gyflwyno'r cais heb eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

Os gwnaethoch ateb 'Do/Ydw', naill ai i gwestiwn 4.1 neu 4.2 uchod, nodwch y lleoliad lle ffurfiwyd y briodas/bartneriaeth sifil, fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif priodas/partneriaeth sifil (os oes gennych un)

**4.3** Dyddiad y briodas neu'r bartneriaeth sifil

Diwrnod

Mis

Blwyddyn

**4.4** Eich enw yn llawn fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif

Enw llawn eich priod/partner sifil fel y mae'n ymddangos ar eich tystysgrif

**4.5** A yw'r manylion sydd ar eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil yn gywir?

☐ Ydy

☐ Nac ydy. Eglurwch pam

## Adran 5 – Pam y gall y llys hwn ddelio â'ch achos (Awdurdodaeth)

Mae angen i'r llys ddeall pam rydych chi'n meddwl bod ganddo'r pŵer cyfreithiol (awdurdodaeth) i ddelio â'ch cais.

Llenwch adran 5.1 neu os nad yw'r adran honno'n berthnasol i chi, llenwch adran 5.2.

**Pwysig: Os oes angen help arnoch i benderfynu pa resymau sy'n berthnasol i chi, dylech ystyried ceisio cyngor cyfreithiol, yn enwedig os ydych yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr.**

**5.1** Y sail arferol i'r llys fod ag awdurdodaeth yw pan fydd un o'r partïon neu'r ddau ohonynt yn preswylio'n arferol yng Nghymru neu Loegr.

**Preswylfa Arferol**

Eich preswylfa arferol yw lle'r ydych wedi eich lleoli yn bennaf. Rhaid i chi fod wedi setlo yno a'ch bod yn bwriadu aros yno. Gall rhai o'r canlynol fod yn berthnasol: rydych yn gweithio yno, yn berchen ar eiddo, mae eich plant yn mynd i'r ysgol yno, ac mae eich prif fywyd teuluol yn digwydd yno.

**Domisil**

Eich domisil yw lleoliad eich prif gartref ble'r ydych yn byw, neu yr ydych yn bwriadu dychwelyd iddo.

Pan gawsoch eich geni, byddwch wedi cael domisil eich rhieni (er enghraifft, eich tad os oedd eich rhieni wedi priodi, neu eich mam os nad oeddynt yn briod neu os bu farw eich tad cyn i chi gael eich geni). Os ydych wedi symud i wlad arall ers hynny ac yn byw yno'n barhaol, yna efallai bydd eich domisil wedi symud yno.

Os cawsoch eich geni yng Nghymru neu Loegr, yn byw eich bywyd cyfan yma, ac yn bwriadu aros yma, yna mae'n debygol iawn y **byddwch yn preswylio'n arferol yma a bod eich domisil** yma.

**Gan y bydd y llys angen gwybod y rheswm/rhesymau paham yr ydych yn credu bod ganddo awdurdodaeth i ddelio â'r cais, ticiwch y rheswm/rhesymau yn y rhestr dros y dudalen.**

**Ticiwch y rhesymau sy'n berthnasol:**

- ☐ mae'r ddau barti i'r briodas/bartner sifil yn preswylio yn arferol yng Nghymru neu Loegr;
- ☐ roedd y ddau barti i'r briodas/bartner sifil yn preswylio ddiwethaf yng Nghymru neu Loegr ac mae un ohonynt yn parhau i fyw yno;
- ☐ mae'r atebydd yn preswylio'n arferol yng Nghymru neu Loegr;
- ☐ mae'r ceisydd yn preswylio'n arferol yng Nghymru neu Loegr ac wedi preswylio yno am o leiaf blwyddyn yn union cyn cyflwyno'r cais;
- ☐ mae domisil y ceisydd yng Nghymru neu Loegr, mae'n preswylio'n arferol yno ac mae wedi preswylio yno am o leiaf chwe mis yn union cyn cyflwyno'r cais;
- ☐ mae domisil y ddau barti i'r briodas/bartner sifil yng Nghymru neu Loegr; **neu**
- ☐ naill ai
  - ☐ bod y ceisydd; **neu'r**
  - ☐ atebydd
    - ☐ â'i ddomisil yng Nghymru neu Loegr; **neu**
    - ☐ wedi marw cyn cyflwyno'r cais ac roedd naill ai adeg ei farwolaeth â'i ddomisil yng Nghymru a Lloegr neu wedi bod yn preswylio'n arferol yng Nghymru a Lloegr am gyfnod o flwyddyn yn diweddu ar ddyddiad y farwolaeth.

**NEU** ar gyfer partneriaid sifil neu briodas o'r un rhyw yn unig

**5.2** Os nad yw'r opsiynau yn adran 5.1 yn berthnasol i chi, ystyriwch a yw'r isod yn berthnasol:

- ☐ bod y partïon wedi cofrestru fel partneriaid sifil yng Nghymru neu Loegr neu, yn achos cwpl o'r un rhyw, wedi priodi ei gilydd o dan gyfraith Cymru a Lloegr, a byddai er budd cyfiawnder i'r llys gymryd awdurdodaeth yn yr achos hwn.

# Rhan 6 Y ffaith/ffeithiau

Rwy’n dibynnu ar y ffaith/ffeithiau canlynol i gefnogi fy nghais:

**Yng nghyswllt priodas:**
Naill ai mae'r briodas yn ddi-rym oherwydd:

- ☐ Bod y ceisydd a’r atebydd o fewn graddau gwaharddedig perthynas
- ☐ Bod y ceisydd/atebydd o dan 16 oed adeg y briodas
- ☐ Bod y ceisydd a’r atebydd wedi priodi drwy’i gilydd gan anwybyddu rhai gofynion o ran ffurfio priodas
- ☐ Adeg y briodas roedd y ceisydd/atebydd eisoes wedi priodi’n gyfreithlon neu’n bartner sifil
- ☐ Yn achos priodas amlbriod yr ymrwymwyd iddi y tu allan i Gymru a Lloegr, roedd un parti adeg y briodas â’i ddomisil yng Nghymru a Lloegr

Parhau dros y dudalen

**Graddau gwaharddedig perthynas mewn priodas neu bartneriaeth sifil:** Os ydych chi a’ch priod/partner sifil yn perthyn yn agos i’ch gilydd. Ceir rhestr lawn o'r perthnasau na allwch briodi/ffurfio partneriaeth sifil yn gyfreithiol â hwy yn Rhan 1 o Atodlen Gyntaf Deddf Priodasau 1949 ac yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. (gweler www.legislation.gov.uk)

**Gofynion ar gyfer ffurfio priodas neu bartneriaeth sifil:** Mae’n rhaid i briodasau a phartneriaethau sifil a gynhelir yng Nghymru a Lloegr fodloni rhai meini prawf er mwyn iddynt fod yn ddilys o dan y gyfraith. Ceir rhestr lawn o’r meini prawf yn rhannau 25 a 49 Deddf Priodasau 1949 neu Adran 49(b) Deddf Partneriaeth Sifil 2004. (gweler www.legislation.gov.uk)

**Priodasau Amlbriod**
Os ydych mewn priodas amlbriod, yr ymrwymwyd iddi y tu allan i’r Deyrnas Unedig, ond â chithau neu eich priod â’ch domisil yng Nghymru a Lloegr bryd hynny, mae’n bosibl i naill ai chi neu eich priod wneud cais am ddirymiad am y rheswm hwn. Nid yw priodas yn briodas amlbriod os nad yw’r naill barti na’r llall eisoes yn briod adeg y briodas.

**neu’r mae'r briodas yn ddirymadwy oherwydd:**

- ☐ Ni chafodd y briodas ei chyflawni oherwydd anallu’r ceisydd/atebydd i’w chyflawni (ni fydd hyn yn berthnasol i briodasau cyplau o’r un rhyw)
- ☐ Ni chyflawnwyd y briodas oherwydd gwrthodiad bwriadol yr atebydd i’w chyflawni (ni fydd hyn yn berthnasol i briodasau cyplau o’r un rhyw)
- ☐ Na roddodd y ceisydd/atebydd ganiatâd dilys i’w ffurfio, pa un ai oherwydd gorfodaeth, camgymeriad, gwendid meddwl neu fel arall
- ☐ Bod y naill barti neu’r llall, adeg y briodas, er eu bod â’r gallu i roi caniatâd dilys, yn dioddef o anhwylder meddyliol (yn barhaol neu’n achlysurol) o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983 o’r fath neu i’r fath raddau fel nad oedd yn ffit i briodi
- ☐ Bod yr atebydd, adeg y briodas, yn dioddef o glefyd gwenerol (a drosglwyddir yn rhywiol)
- ☐ Bod yr atebydd, adeg y briodas, yn feichiog gan unigolyn ar wahân i’r ceisydd
- ☐ Bod tystysgrif cydnabod rhyw interim dan Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004 wedi’i rhoi, ar ôl y briodas, i’r naill barti neu’r llall yn y briodas
- ☐ Bod yr atebydd yn unigolyn yr oedd ei rywedd adeg y briodas wedi dod yn rhywedd newydd yr unigolyn dan Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004.

**Methu cyflawni priodas**
Os nad yw eich priodas wedi’i chyflawni (h.y. nid ydych wedi cael cyfathrach rywiol â’ch priod ers eich priodas) oherwydd i’ch priod yn fwriadol wrthod cyflawni, neu oherwydd nad ydych chi neu eich priod wedi gallu cyflawni am reswm corfforol neu feddyliol, efallai y byddwch yn gymwys i wneud cais am ddirymiad am y rhesymau hyn.

**Tystysgrif Cydnabod Rhyw Interim:** Os yw'r naill barti neu'r llall i’r briodas/bartneriaeth sifil wedi cael tystysgrif cydnabod rhyw interim ers dyddiad y briodas/bartneriaeth sifil, efallai eich bod yn gymwys i wneud cais am ddirymiad am y rheswm hwn.
I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â’r Panel Cydnabod Rhyw ar 0845 355 5155 neu ewch i www.grp.gov.uk.

Parhau dros y dudalen

**Yng nghyswllt partneriaeth sifil:**

Naill ai bod y bartneriaeth sifil yn ddi-rym oherwydd:

- ☐ Ar yr amser y ffurfiodd y partïon y bartneriaeth sifil nid oeddynt yn gymwys i gofrestru'n bartneriaid sifil i'w gilydd dan Bennod un (Adran 3) Deddf Partneriaeth Sifil 2004
- ☐ Adeg y bartneriaeth sifil roedd y partïon yn gwybod:
  - ☐ nad oedd rhybudd dyledus wedi'i roi o'r bartneriaeth sifil arfaethedig
  - ☐ nad oedd y dystysgrif partneriaeth sifil wedi'i chyflwyno'n briodol
  - ☐ bod y ddogfen partneriaeth sifil yn ddi-rym dan adrannau 17(3) neu 27(2) (cofrestru ar ôl yr amser a ganiateir ar gyfer cofrestru)
  - ☐ bod y man cofrestru'n fan nad oedd wedi'i bennu yn yr hysbysiadau (neu hysbysiad) o bartneriaeth sifil arfaethedig a'r ddogfen partneriaeth sifil
  - ☐ nad oedd cofrestrydd partneriaeth sifil yn bresennol
  - ☐ bod y man cofrestru mewn safle nad yw'n safle wedi'i gymeradwyo er bod y cofrestriad yn honedig yn unol ag adran 6(3A)
- ☐ Mae'r ddogfen partneriaeth sifil yn ddi-rym dan baragraff 6(5) o Atodlen 2 (gwaherddir partneriaeth sifil rhwng plentyn ac unigolyn arall)

neu, mae'r bartneriaeth sifil yn ddirymadwy oherwydd:

- ☐ Na roddodd y ceisydd neu'r atebydd ganiatâd dilys i ffurfio'r bartneriaeth sifil (pa un ai oherwydd gorfodaeth, camgymeriad, gwendid meddwl neu fel arall)
- ☐ Bod y naill barti neu'r llall, adeg ffurfio'r bartneriaeth sifil, er eu bod â'r gallu i roi caniatâd dilys, yn dioddef o anhwylder meddyliol (yn barhaol neu'n achlysurol) o'r fath neu i'r fath raddau fel nad oedd yn ffit i ffurfio partneriaeth sifil
- ☐ Bod yr atebydd, adeg ffurfio'r bartneriaeth sifil, yn feichiog gan unigolyn ar wahân i'r ceisydd
- ☐ Bod tystysgrif cydnabod rhywedd interim dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 wedi'i rhoi, ar ôl ffurfio'r bartneriaeth sifil, i'r naill bartner sifil neu'r llall
- ☐ Bod yr atebydd yn unigolyn yr oedd ei rywedd adeg y bartneriaeth sifil wedi dod yn rhywedd newydd yr unigolyn dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004 adeg ffurfio'r bartneriaeth sifil.

**Rhywedd y partïon i bartneriaeth sifil:**
Mae partneriaeth sifil yn ddi-rym yng Nghymru a Lloegr os yw rhywedd y ddau barti'n wahanol.

**Achosion rhyngwladol:** Os yw'r partïon yn gwpl o'r un rhyw sydd wedi ymrwymo i berthynas gofrestredig a gydnabyddir yn gyfreithiol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gellir cydnabod eu perthynas fel perthynas dramor y gellir ei thrin fel partneriaeth sifil o fewn y DU o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Ar adeg cofrestru, mae'n rhaid bod y partïon wedi bod o'r un rhyw o dan gyfraith y wlad lle cofrestrwyd y berthynas (a elwir yn gyfraith berthnasol), a bydd y partïon yn cael eu trin fel rhai sydd â phartneriaeth sifil os oeddent o'r un rhyw o dan gyfraith y Deyrnas Unedig ar yr adeg y cofrestrwyd y berthynas neu pan oedd Deddf 2004 yn gymwys os oedd yn ddiweddarach.

Mae'r bartneriaeth sifil yn ddi-rym os nad yw'r berthynas yn berthynas dramor neu, er ei bod yn berthynas dramor, nad ystyrir bod y partïon wedi ffurfio partneriaeth sifil. Mae'r bartneriaeth sifil yn ddirymadwy os yw'r berthynas dramor yn ddirymadwy o dan y gyfraith berthnasol neu mewn rhai amgylchiadau penodol o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Efallai y gallwch wneud cais am ddirymiad am y rhesymau hyn.

## Adran 7 - Datganiad yr achos

(ymhob achos, nodwch yn gryno unrhyw fanylion perthnasol am y ffaith/ffeithiau yr ydych yn dibynnu arnynt)

## Rhan 8 – Cymorth neu gyfleusterau arbennig os byddwch yn dod i'r Llys

**8.1** Os bydd yn rhaid i chi fynychu'r llys yn ystod yr achos hwn, a fydd angen cyfleusterau neu gymorth arbennig arnoch?

☐ Bydd, rhowch y manylion isod

☐ Na fydd

## Adran 9 - Achosion llys sydd ar y gweill neu achosion llys blaenorol

**9.1** A oes yna unrhyw achos llys sydd ar y gweill neu achos llys blaenorol yn ymwneud â'ch priodas/partneriaeth sifil neu sy'n effeithio ar ei dilysrwydd (gan gynnwys unrhyw achos llys sydd ar y gweill neu achos llys blaenorol dramor)?

☐ Oes, rhowch y manylion isod

☐ Nac oes

Rhif yr Achos/Rhifau Achosio

Crynodeb o'r achosion llys sydd ar y gweill neu flaenorol

# Adran 10 – Rhannu eich arian a'ch eiddo - Gorchmynion a geisir

Gallwch wneud cais i'r llys am orchmynion ynghylch sut bydd eich arian, eiddo, pensiynau ac asedau eraill yn cael eu rhannu. Gelwir y rhain yn orchmynion ariannol a gall gynnwys

- gorchymyn am gynhaliaeth tra arhosir am achos/canlyniad
- gorchymyn taliadau cyfnodol
- gorchymyn darpariaeth sicredig
- gorchymyn cyfandaliad
- gorchymyn ad-drefnu perchnogaeth eiddo
- gorchymyn rhannu pensiwn/gorchymyn rhannu iawndal/gorchymyn atafaelu

Gallwch wneud cais am orchmynion i chi eich hun, ac/neu, os yw'n berthnasol, i'ch plant.

Os ydych yn cytuno â'ch priod neu bartner sifil ynghylch sut y bydd eich eiddo, arian, pensiynau ac asedau eraill yn cael eu rhannu, ac eisiau iddo fod yn rhwymol yn gyfreithiol, gallwch wneud cais i orchymyn ariannol gael ei wneud drwy ganiatâd.

Os ydych yn anghytuno â'ch priod neu bartner sifil ynghylch sut y bydd eich eiddo, arian, pensiynau ac asedau eraill yn cael eu rhannu, gallwch ofyn i'r llys benderfynu ar eich rhan.

**10.1 Ydych chi eisiau gwneud cais am orchymyn ariannol?**

☐ Ydw, rwyf eisiau gwneud cais am orchymyn ariannol ar gyfer (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

  ☐ fi fy hun

  ☐ y plant

☐ Nac ydw

**Os byddwch yn ateb 'Ydw' i gwestiwn 10.1,** ni fydd y llys yn cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd. I ddechrau achos ariannol yn ffurfiol, bydd angen i chi hefyd lenwi Ffurflen A neu Ffurflen A1 a thalu ffi llys arall.

Gallwch ddod o hyd i gyfarwyddyd pellach ar orchmynion ariannol a sut i gael cymorth i gytuno ar unrhyw faterion yn [www.gov.uk/money-property-when-relationship-ends/apply-for-a-financial-order](www.gov.uk/money-property-when-relationship-ends/apply-for-a-financial-order)

**Os gwnaethoch ateb 'Nac ydw' i gwestiwn 10.1,** gallwch dal wneud cais am orchymyn ariannol yn y dyfodol, **ond dim ond nes i chi ailbriodi neu ffurfio partneriaeth sifil** arall. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i orchmynion rhannu pensiwn neu orchmynion rhannu iawndal.

Os nad ydych yn siŵr beth i'w wneud, argymhellir eich bod yn ceisio cyngor cyfreithiol.

Noder, fel arfer fe wneir penderfyniadau ynghylch cynhaliaeth plant drwy gytundeb neu gan y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant a dim ond dan amgylchiadau penodol y gall y llys wneud y gorchmynion hyn.

# Adran 11 – Crynodeb o'r hyn y gwneir cais amdano (y deisyfiad)

Mae'r ceisydd yn gwneud cais am y canlynol:

**11.1 Y cais**

Bod y

☐ briodas yn cael ei dirymu

☐ partneriaeth sifil yn cael ei dirymu

**11.2 Gorchymyn Ariannol** (os gwnaethoch roi tic yn 'Ydw' ar gyfer cwestiwn 10.1 ac yn dymuno gwneud cais am Orchymyn Ariannol)

Y gellir rhoi gorchymyn ariannol ar gyfer:

☐ y ceisydd

☐ y plant

**Arian ac eiddo pan fyddwch wedi ysgaru neu wahanu**
Efallai y byddwch yn gallu datrys eich trefniadau ariannol a threfniadau eraill y tu allan i'r llys, er enghraifft drwy gyfryngu. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am gyfryngu yn https://www.gov.uk/money-property-when-relationship-ends/mediation

# Adran 12 - Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau parhau, yn wir.

☐ **Mae'r ceisydd** yn credu fod y ffeithiau a nodir yn ffurflen hon, ac unrhyw ddalennau parhau, yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

**Llofnod**

☐ Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

**Dyddiad**

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

# Ffi’r llys

## Beth sydd angen i chi ei dalu

ffi y llys yw

[ ]

## Sut i dalu ffi’r llys

### Unig geisydd neu geisydd 1

☐ **Nid wyf wedi cynnwys y taliad oherwydd**

- ☐ Rwyf wedi gwneud cais am Help i Dalu Ffioedd ar-lein, a fy nghyfeirnod yw

| H | W | F | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

- ☐ Rwy’n gwneud cais am Help i Dalu Ffioedd, gweler y ffurflen **EX160**
- ☐ Arall - eglurwch pam

☐ **Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd**

- ☐ mi dalaf dros y ffôn.
- ☐ anfonwch neges e-bost ataf gyda’r manylion talu. Fy nghyfeiriad e-bost yw

☐ rwy’n amgáu **siec neu archeb bost,** yn daladwy i ‘GLlTEM’

**Ffi'r llys**
Gallwch ddod o hyd i'r ffi gyfredol yn y daflen EX50 Ffioedd Llys Sifil a Llys Teulu y gellir ei lawrlwytho o: https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms

**Os na allwch fforddio ffi'r llys**

Efallai na fydd rhaid i chi dalu ffi, neu efallai cewch ostyngiad os nad oes gennych lawer o gynilion a buddsoddiadau, os ydych yn cael budd-daliadau penodol neu os ydych ar incwm isel.

Gallwch wneud cais am help gyda ffioedd llys a thribiwnlys ar-lein yn www.gov.uk/help-with-court-fees neu drwy’r ffurflen ‘EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd’ a’r cyfarwyddyd ‘EX160A – Sut i wneud cais am help i dalu ffioedd’.

**Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd.** I dalu ffi’r llys dros y ffôn, dylech ffonio’r llinell dalu **10 diwrnod ar ôl** i chi gyflwyno’r cais i’r llys ar 0300 303 5171 (dydd Llun i ddydd Gwener: 8am - 6pm, dydd Sadwrn 8am - 2pm)

## Wrth ddychwelyd eich ffurflen, rhaid i chi gynnwys:

- **Un copi gwreiddiol neu ardystiedig** o'ch tystysgrif priodas/partneriaeth sifil neu ddogfen debyg a gyhoeddwyd o dan y gyfraith sydd mewn grym yn y wlad lle cynhaliwyd y briodas neu cofrestrwyd y bartneriaeth sifil (ni dderbynnir llungopïau). Os nad yw eich tystysgrif yn Saesneg yna rhaid darparu cyfieithiad ardystiedig hefyd. Bydd y llys yn cadw'r dogfennau a anfonwch. Os ydych eisiau eu cael yn ôl bydd angen i chi wneud cais.
- **Ffi'r llys**
  Gallwch ddod o hyd i'r ffi gyfredol yn y daflen **EX50** Ffioedd y Llysoedd Sifil a Theulu y gellir ei lawrlwytho o: https://www.gov.uk/government/collections/court-and-tribunal-forms

  Os na allwch fforddio talu'r ffi llys, efallai y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad yn y ffi neu i'r ffi gael ei dileu. Mae'r ffurflen **EX160** Gwneud cais am help i dalu ffioedd a llyfryn cyfarwyddyd **EX160A** yn cynnwys rhagor o wybodaeth - https://www.gov.uk/get-help-with-court-fees

  Os ydych yn talu gyda siec cofiwch ei chynnwys gyda'ch cais a'i wneud yn daladwy i 'Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM'.

**Anfonwch eich cais a'r eitemau a restrir uchod i**

Bury St Edmunds Regional Divorce Unit
Triton House
St Andrew's Street North
Bury St Edmunds
IP33 1TR

Rhif ffôn: 0300 303 5171 (Siaradwyr Cymraeg)
Dydd Llun i ddydd Gwener: 8.30am - 5pm

e-bost: divorceunitbse@justice.gov.uk

**Taliadau gyda siec**
Os ydych yn talu gyda siec, cofiwch ei chynnwys gyda'ch cais a'i gwneud yn daladwy i 'GLlTEM'.